

Y broses awdurdodi, y canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer defnyddio systemau amgen i ddiheintio offer mewn Lladd-dai, Ffatrioedd Torri a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy.

Tudalen grynodedb yr ymgynghoriad

Dyddiad lansio:	08 Rhagfyr 2017	Dyddiad cau:	12 Ionawr 2018
------------------------	-----------------	---------------------	----------------

Pwy fydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn?

Lladd-dai / Ffatrioedd Torri / Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy / Gweithredwyr Busnesau Bwyd / Awdurdodau Lleol / Partneriaid Cyflawni Gwasanaethau.

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Y broses awdurdodi, y canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer defnyddio systemau amgen i ddiheintio offer mewn Lladd-dai, Ffatrioedd Torri a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau ar broses awdurdodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a dogfennau cysylltiedig. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau cyn i ni gyhoeddi'r fersiwn derfynol ar ein gwefan.

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Enw: Raj Pal
Tîm: Uned Gefnogi Gorfforaethol

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Ffôn: 0207 276 8083
E-bost: Raj.pal@food.gov.uk

Cyfeiriad post:

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Uned Gefnogi Gorfforaethol
Llawr 1
125 Kingsway
Llundain
WC2B 6NH

Asesiad Effaith

Oes

Nac oes

Gweler Atodiad A i weld pam.

Y Cynnig:

Y broses awdurdodi, y canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer defnyddio systemau amgen i ddiheintio offer mewn Lladd-dai, Ffatrioedd Torri a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy.

Manylion yr Ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid. Mae'r Atodiad yn ei gwneud yn ofynnol i Ladd-dai a Ffatrioedd Torri sy'n prosesu cig o garnolion (*ungulates*) a dofednod domestig, a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy *"gael cyfleusterau ar gyfer diheintio offer gyda dŵr poeth wedi'i gyflenwi ar dymheredd nad yw'n is na 82°C, neu system amgen sy'n cael yr un effaith."*
2. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ceisio'ch safbwyntiau ar y broses, 'Canllawiau ar ddefnyddio systemau amgen i ddiheintio offer mewn Lladd-dai, Ffatrioedd Torri a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy' a'r dogfennau cysylltiedig.
3. Mae'r canllawiau yn gosod y broses ar gyfer awdurdodi a gweithredu o systemau amgen ar gyfer diheintio offer o fewn sefydliadau cig cymeradwy yr ASB,. Bwriedir i'r dogfennau cysylltiedig fod o gymorth i'r broses.

Cefndir

4. Mae Lladd-dai a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy yn defnyddio amrywiaeth o offer gan gynnwys cyllyll, holltwyr a llifiau y mae gofyn eu golchi ac yna eu diheintio. Yn ogystal, nid yn unig y mae Ffatrioedd Torri yn defnyddio'r un offer torri, ond maent hefyd yn defnyddio offer torri awtomatig megis peiriannau sleisio, ffiledu a deisio.
5. Un o'r anawsterau a wynebwr gan yr awdurdod cymwys wrth ystyried cais am system ddiheintio amgen sy'n cael yr un effaith â defnyddio dŵr ar dymheredd nad yw'n is na 82°C yw'r ffaith nad oes canllawiau gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar sut i bennu a yw system yn gyfwerth yn y cyd-destun hwn. Felly, nod y canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig yw egluro'r weithdrefn os yw gweithredwr busnes bwyd yn dymuno cyflwyno cais yn ogystal â darparu canllawiau ar yr hyn y bydd swyddogion awdurdodedig ei hangen er mwyn eu galluogi i benderfynu p'un a yw system amgen i ddiheintio cyllyll ac offer eraill mewn Lladd-dai, Ffatrioedd Torri a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy gyfwerth â defnyddio dŵr ar dymheredd heb fod yn is na 82°C.
6. Mae'r ASB yn gyfrifol am gymeradwyo Lladd-dai, Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy a Ffatrioedd Torri yn ogystal ag unrhyw weithdrefn y mae gofyn ei hawdurdodi, ac yn

yr achos penodol hwn, mae ganddi ddyletswydd i sicrhau bod gan unrhyw weithdrefn amgen ar gyfer diheintio effaith sydd gyfwerth â defnyddio dŵr ar dymheredd nad yw'n is na 82°C.

- Wrth gyflwyno'r dystiolaeth ar gyfer cyfwerthedd, mae'n hanfodol asesu'r amgylchedd lle bydd y dull amgen yn cael ei ddefnyddio, gan y bydd risgiau uwch yn gysylltiedig â rhai amgylcheddau o'u cymharu ag eraill. O ganlyniad, mae'r canllawiau hyn yn adlewyrchu'r gwahanol risgiau mewn Lladd-dai, Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy a Ffatrioedd Torri, gan ddisgrifio'r broses o brofi cyfwerthedd mewn adrannau ar wahân.
- Er bod gofyn am broses awdurdodi mwy trylwyr ar gyfer Lladd-dai a Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy, mae'n haws i ffatrioedd torri weithredu systemau glanweithdra amgen, cyn belled â'u bod yn bodloni meini prawf sylfaenol.

Asesiad Effaith

Mae angen tystiolaeth gan y diwydiant ar effaith y broses awdurdodi arfaethedig er mwyn i'r ASB asesu effaith y mesur hwn. Felly, byddwn yn croesawu mewnbwn gan y diwydiant ar effaith y mesur hwn, yn arbennig:

- Pa mor debygol yw hi y byddwch yn cymryd mantais o'r broses awdurdodi arfaethedig ar gyfer system ddiheintio amgen?
- Yn eich barn chi, beth yw manteision cyflwyno system ddiheintio amgen?
- Yn eich barn chi, ydych chi'n rhagweld unrhyw faich sylweddol yn y broses awdurdodi arfaethedig ar gyfer cyflwyno system ddiheintio amgen?

Ar gyfer pob cwestiwn, ceisiwch esbonio'ch ymatebion fel y gallwn ddeall yn llwyr effaith debygol y mesur hwn.

Y Broses Ymgynghori

- Mae'r ymgynghoriad hwn ar y broses awdurdodi, y canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer defnyddio systemau amgen ar gyfer diheintio offer o fewn sefydliadau cig cymeradwy yr ASB yn para 5 wythnos ac yn dod i ben ar **12 Ionawr 2018**. Yn eich ymatebion, dylech nodi p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn preifat neu ar ran sefydliad / cwmni gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli.
- Caiff ymatebion sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau ar 12 Ionawr eu cymryd i ystyriaeth yn y dull terfynol a ddewisir ar gyfer y broses awdurdodi a'r canllawiau a gyhoeddir.
- Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn adolygu'r ymatebion sy'n dod i law. Caiff adroddiad cryno o ymatebion ei gyhoeddi ar wefan yr ASB o fewn 3 mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Ar ran yr ASB, diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Henna Safdar,

Cangen Polisi Hylendid Cig, Llawr 1, Aviation House, 125 Kingsway, Llundain, WC2B 6NH

Dogfennau wedi'u hamgáu (Saesneg yn unig)

Atodiad A: Canllawiau ar ddefnyddio systemau amgen i ddiheintio offer

Atodiad B: Ffurflen gais ar awdurdodi defnyddio systemau amgen ar gyfer diheintio offer torri mewn lladd-dai a sefydliadau trin helgig

Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Cyhoeddi data personol a chyfrinachedd ymatebion

1. Yn unol ag egwyddor yr ASB o fod yn agored, byddwn yn cadw copi o'r ymgynghoriad terfynol a'r ymatebion, a fydd ar gael i'r cyhoedd drwy gais i [Gydlynnydd Ymgynghori'r ASB](#). Bydd yr ASB yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, a allai gynnwys eich enw llawn. Dim ond yn sgil cais i weld yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad y byddwn yn rhyddhau unrhyw ddata personol arall. Os nad ydych am i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau, dylech lenwi a dychwelyd y Ffurflen Cyhoeddi Data Personol, sydd ar gael ar y wefan drwy <http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/dataprotection.doc>. Nid yw llenwi'r ffurflen hon yn golygu y byddwn yn trin eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, dim ond eich data personol.
3. Yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, dylech nodi ei bod yn bosibl y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn eich ymateb yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu. Os ydych o'r farn na ddylid datgelu peth o'r wybodaeth a ddarparwyd yn eich ymateb, dylech nodi'r wybodaeth dan sylw, gofyn am beidio â'i datgelu ac egluro pa niwed posibl a all ddeillio o'i datgelu yn eich barn chi. Yr ASB fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid dal yr wybodaeth yn ôl. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried eich barn wrth wneud y penderfyniad hwn.
4. Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn gais o'r fath oni bai eich bod yn cynnwys cais penodol, ynghyd ag eglurhad, ym mhreif destun eich ymateb.

Rhagor o wybodaeth

5. Nid oes Asesiad Effaith wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn gan y bydd yn cael ei ddatblygu yn ystod y broses ymgynghori gan ddefnyddio tystiolaeth o'r diwydiant.
6. Cysylltwch â ni os oes angen yr ymgynghoriad hwn mewn fformat arall megis Braille neu brint bras.
7. **Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth EM¹.**

¹ <http://www.bis.gov.uk/policies/bre/consultation-guidance>

